OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 2494 (Cy. 242)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 32, Coryton) a Chefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2014

*Gwnaed* *16 Medi 2014*

*Yn dod i rym* *22 Medi 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain i Dde Cymru (yr M4) ("y draffordd") a Chefnffordd Caerdydd i Langurig (yr A470) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r draffordd a'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y draffordd a'r gefnffordd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 22 Medi 2014. Ei enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 32, Coryton) a Chefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2014.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn neu mewn cysylltiad â'r gwaith hwnnw, neu ar gyfer y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 22 Medi 2014 ac

sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o’r draffordd” (“*the lengths of the motorway*”) yw’r darnau o’r draffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn;

ystyr “y darn o’r gefnffordd” (“*the length of the trunk road*”) yw’r darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 3 i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiad**

**3**. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar hyd y darnau o’r draffordd a’r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic o’r fath gael ei reidio, ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a’r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 16 Medi 2014

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

### Hyd a lled y gwaharddiad ar bob cerbyd

### Traffordd yr M4, Cyffordd 32, Coryton, Caerdydd

i) Y darnau cyfan o'r ffordd ymuno a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin.

ii) Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain.

iii) Y darn hwnnw o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 315 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Coryton hyd at y gyffordd honno â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Coryton.

## ATODLEN 2

### Hyd a lled y gwaharddiad ar bob cerbyd

### Cefnffordd yr A470, Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd

i) Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gogledd.

ii) Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r de.

iii) Y darn hwnnw o ran ogledd-orllewinol cerbytffordd gylchu Cylchfan Coryton sy'n ymestyn o'i chyffordd â ffordd ymuno tua'r gogledd yr A470 hyd at ei chyffordd â ffordd ymadael tua'r de yr A470.

iv) Y darn hwnnw o ran ddwyreiniol cerbytffordd gylchu Cylchfan Coryton sy'n ymestyn o'i chyffordd â ffordd ymuno tua'r de yr A470 hyd at ei chyffordd â ffordd ymadael tua'r gogledd yr A470.

**ATODLEN 3**

**Hyd a lled y Terfyn Cyflymder o 10 mya, Gwahardd Goddiweddyd a Gwahardd Beicwyr**

**Cefnffordd yr A470, Coryton, Caerdydd**

Y darn cyfan o gerbytffordd gylchu Cylchfan Cyfnewidfa Coryton.